# Atodiad 2

## Ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl canlynol yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd i'w gwella

**Arddangosyn 4: ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r meysydd i'w gwella**

| Cyf | Maes ar gyfer wella | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| G1 | Rhoi hyfforddiant atal twyll gorfodol ar waith ar gyfer rhai grwpiau o staff neu bob un | Byddai gweithredu hyfforddiant atal twyll gorfodol yn cael ei ystyried yn safon aur o ran helpu i ddatblygu diwylliant atal twyll yn y Bwrdd Iechyd. Mae amrywiaeth o opsiynau gan gynnwys hyfforddiant wyneb-i-wyneb neu e-ddysgu gorfodol ar atal twyll. Gallai dysgu gorfodol fod yn berthnasol i bawb neu rai o'r staff sydd mewn mwy o berygl o dwyll, a gellir archwilio hyn i ategu'r rhaglen sefydledig o waith ymwybyddiaeth a wnaed gan Dîm Atal Twyll y Bwrdd Iechyd. | 31/03/2021 | Matthew Evans |

| Cyf | Maes ar gyfer wella | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| G2 | Ystyried y capasiti Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sy'n ofynnol i ddarparu adnoddau ar gyfer y lefelau gofynnol o waith rhagweithiol ac ymchwiliol, gan gynnwys hyfforddiant staff, a gwneud y tîm yn gydnerth. | Er y derbynnir bod mwy o gapasiti yn arwain at fwy o effaith a chanlyniadau o fewn gwaith Atal Twyll, nid yw arbedion maint wedi'u harchwilio'n fanwl eto. Gallai dull mwy deinamig, cydgysylltiedig o fynd i'r afael â gwaith atal twyll ar draws Byrddau Iechyd arwain at well cydnerthedd a chanlyniadau ataliol gwell, yn enwedig gyda Byrddau Iechyd sy'n rhannu ffiniau.<br><br>Ni ddylid anghofio effaith Arbenigwyr Atal Twyll Lleol sydd wedi'u sefydlu mewn Byrddau Iechyd wrth ystyried y dull hwn ond yn sicr mae lle i gyflawni effeithiau dymunol canlyniadau rhagweithiol ac ymchwiliol, hyfforddiant staff, a mwy o gadernid ledled Cymru gyda dull mwy cydgysylltiedig. | | Matthew Evans |

